

# Papur Pawb

Pris: 25c

Tachwedd 2005

Rhif 313



## Hwyl wrth y goelcerth

Dyma rai o blant yr ardal yn mwynhau gwres y tân ar noson Guto Ffowc.

# Murlun Newydd

Fel y gŵyr pawb yn y pentref - a phawb sy'n gyrru drwy'r pentref - mae murlun enwog Tal-y-bont wedi cael ei ddymchwel wrth i hen warws y Lolfa gael ei weddnewid yn swyddfeydd.

Peintwyd y murlun yn nechrau'r 90au ar ôl i Ruffuddiaid Tal-y-bont - cyfarwyddwyr y Lolfa - gael fflach o ysbrydoliaeth. Sicrhawyd cymorth ariannol gan Gyngor y Celfyddydau, a gwahoddwyd ceisiadau ar gyfer y gwaith gan nifer o artistiaid. Bu'r murlun yn rhan annatod o fywyd Tal-y-bont ac yn rywbeth sy'n cael ei unieithu â'r pentref, ac ni ellid gadael i'r mur fod yn ddi-lun yn dilyn y newidiadau.

Ond y newydd da yw bod murlun arall ar y ffordd - o dan gyfarwyddyd arlunydd lleol -

Ruth Jên. Amcangyfrifir y bydd y murlun yn cymryd tua tri mis i'w gwblhau, felly erbyn y gwanwyn dylai fod gwledd weledol newydd o waith unigryw Ruth i godi'n calonau! Meddai Ruth, "Fi fydd yn peintio'r murlun. Dydyn ni ddim wedi penderfynu beth fydda i'n peintio eto. Ond gallaf gadarnhau mai nid acrylics na phrint sgrin sidan fydd y cyfrwng." Mae Ruth yn gobeithio bydd pobl yn onest wrth ymateb i'r murlun - fel oeddent yn y gorffennol! Hoffai Ruth bwysleisio nad hi sy'n gyfrifol am y wal, felly os bydd craciau yn ymddangos ynddi, nid ati hi y dylai pobl ddod i wneud sylwadau. Yn y gorffennol, cafodd Ruth ei stopio gan bobl yn y dre yn dweud, "Ydych chi wedi gweld golwg eich wal chi? Mae crac ynddi."



## Y Peint Perffaith

Am y pedwerydd tro yn olynol, mae tafarn Y Llew Gwyn, Tal-y-bont yn cael ei henwi yn *The Good Beer Guide 2006*, ac yn naturiol mae John, Maureen a Nicky wrth eu boddau.

Mae'r fraint o gael eich cynnwys yn y llyfr yn dibynnu ar ansawdd a blas y cwrw sy'n cael ei werthu yn eich tafarn. Rhaid i'r cwrw fod yn flasus, o safon uchel, neu mewn geiriau YN BERFFAITH.

John y tafarnwr sy'n gofalu am lanhau'r holl bibellau o'r offer, ac yn ôl ei wraig, Maureen, mae'n treulio mwy o amser yn y seler nag yn y bar!

Gwerthir dau fath o gwrw Banks yn y Llew Gwyn a nifer o gwrw amrywiol mewn poteli.

Llongyfarchiadau i John, Maureen a Nicky sydd eisiau diolch i'w cwsmeriaid ffyddlon am eu cefnogaeth.

Mae menter newydd yn cychwyn yn y Llew Gwyn o fis Tachwedd ymlaen pan fydd cerddorion yn perfformio ar y nos Fercher cyntaf yn y mis.

## Papur Pawb

<b>Golygyddion Cyffredinol:</b>	Eleri a Gwilym Huws Pengwern, Tal-y-bont, Ceredigion Cysyllter â golygyddion y mis. Carys Briddon	(01970) 832231 gwh@aber.ac.uk
<b>Tynnu lluniau:</b> <b>Teipyddes:</b>		
<b>Bont-goch:</b> <b>Parsel Henllys:</b> <b>Eglwysfach:</b> <b>Taliesin:</b> <b>Tal-y-bont:</b>	<b>GOHEBYDDION LLEOL</b> Hilda Thomas, Cwmere, Bont-goch Dilys Morgan, Alltgoch Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais Mai Leeding, Glannant, Taliesin Aileen Williams, Maesmeillion Kathleen Richards, Y Bryn	<b>832295</b> <b>832498</b> <b>(01654) 781312</b> <b>832672</b> <b>832438</b> <b>832201</b>
<b>Tre'r Ddôl:</b> <b>Maes y Deri:</b>	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl Eirlys Jones, 91 Maes y Deri	<b>832429</b> <b>832483</b>
<b>Cadeirydd:</b> <b>Ysgrifennydd:</b> <b>Trysorydd:</b> <b>Aelodaeth:</b> <b>Hysbysebion:</b> <b>Plygwyr:</b>	<b>CYMDEITHAS PAPUR PAWB</b> Robat Gruffudd, Bryngwyn, Tal-y-bont Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais Lyn Hammonds, Beti Jenkins, Dafydd Parri, Gwenllian Parry-Jones Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones, Eirlys Jones (Tanysgrifiadau)	<b>832718</b> <b>832384</b> <b>832560</b> <b>832438</b> <b>(01654) 781312</b>
<b>Dosbarthwyr:</b>		

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth  
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

## Llythyron

### Annwyl ffrindiau

Dyma falch oeddw'n i o weld llun fy chwaer, Anne Daniell, ar waelod y dudalen o newyddion am Ysgol Llangynfelyn yn y rhifyn diwethaf. Ond y fath syndod a gefais o weld faint o bwysau mae hi wedi'i gollu! Ac mae hi wedi newid ei gwallt hefyd - lle lle roedd ganddi unwaith wallt byr golau mae e nawr yn ddu ac yn hir! Ond y peth mwyaf syfrdanol i mi oedd ei bod - heb ddweud wrth unrhyw un - wedi newid ei henw i Mrs Nia Vaughan! Druan â hi - gweithio'n rhy galed, siwr o fod!  
*Yr eiddoch yn gywir,*  
*Pedr ap Gwilym*

(Ymddiheurwn am roi'r enw anghywir dan y llun yn y rhifyn diwethaf!)

### Côr Meibion Aberystwyth Gwahoddiad i ganu...

Mae Côr Meibion Aberystwyth wrthi ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer cyngerdd Nadolig Eglwys Llangorwen, ar nos Sul cyntaf mis Rhagfyr - a chyn hynny bydd wedi cyfrannu i gyngerdd flynyddol y Llang Brydeinig yn y Neuadd Fawr. Mae'r côr hefyd â'i olygon ar gystadlaethau eisteddfodol yn 2006 ac at gymryd rhan yng nghyngerdd Corau Meibion Cymru yn Neuadd Albert, Llundain ym mis Mawrth 2007.

Mae'r côr wedi lansio ymgyrch y mis hwn i ddenu aelodau newydd. Dywedodd Carol Davies, sydd newydd gwblhau blwyddyn fel Cyfarwyddwr Cerdd y Côr Meibion, 'Nid clwb caeedig ydyn ni, lle mae dynion yn ymuno drwy wahoddiad yn unig, a does dim rhaid bod yn Bavarotti neu'n Fryn Terfel i ganu mewn côr!'

Cynhelir yr ymarferion wythnosol yn neuadd Clwb Cymdeithas yr Awyrlu (RAFA) yn Stryd y Bont am 7 bob nos lau.

Hoffai'r Côr glywed oddi wrth unrhyw un o ddarllenwyr *Papur Pawb* sydd â diddordeb mewn canu mewn côr meibion. Bydd croeso mawr i unrhyw un ddod heibio ar noson ymarfer i gael blas, neu i gysylltu ag aelod o'r côr am sgwrs. Os hoffech wybod rhagor, cysylltwch i ddechrau â Goronwy Jones, Glasgoed, Tal-y-bont (832264).

### Cymdeithas Gorawl Aberystwyth

## 'Elijah'

Yn y Neuadd Fawr nos Sadwrn  
10 Rhagfyr am 8 o'r gloch  
Cerddorfa fawr ac unawdwyr  
dan arweiniad  
David Russell Hulme  
Croeso cynnes i bawb!

### NEUADD GOFFA TAL-Y-BONT

Cynhelir y

## Ffair Nadolig Flynyddol

Ddydd Sadwrn,  
26 Tachwedd 2005  
am 2.00 o'r gloch  
Pris mynediad: £1  
(yn cynnwys te a chacen)  
Plant am ddim  
Amryw o stondinau/raffl  
Croeso i bawb

## GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,  
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini  
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk  
Ffôn: 01970 832278



## Dyddiadur

### TACHWEDD

- 12 **Noson gwis.** Neuadd yr Eglwys, Eglwysfach am 7.30
- 13 **Bethel 2 Ifan Mason Davies Nasareth 10 Bugail Rehoboth 5 Bugail Eglwys Dewi Sant** Gweler yr hysbysfwrdd  
**Neuadd Goffa Tal-y-bont.** Gwasanaeth 'Sul y Cofio'. 10.45 a.m.
- 15 **C.F.F.I.** Noson gwis 'Who Wants to be a Millionaire'
- 18 **Cymdeithas Trefnu Blodau Aberystwyth a'r Cylch.** Arddangosfa Trefnu Blodau, Ysgol Penweddig, 7 p.m. Tocyn £6 i gynnwys ymborth tymhorol.
- 20 **Bethel 10 Gweinidog Nasareth 10 R.H. Lewis (Bethel) Rehoboth 10 M.J. Morris Eglwys Dewi Sant** Gweler yr hysbysfwrdd
- 21 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch.** Yr awdur Caryl Lewis, Goginan
- 22 **C.F.F.I.** Noson yng ngofal Meinir Green
- 24 **Sefydliad y Merched Tal-y-bont.** Trefnu Blodau - Rose Rowlands
- 25 **Clwb Nos Wener** Caryl Glyn a'r Band
- 26 **Ffair y Neuadd.** Neuadd Goffa Tal-y-bont, 2 p.m.
- 27 **Bethel 10 W.L. Gealy Nasareth 10 Elwyn Pryse Rehoboth 5 Elwyn Pryse Eglwys Dewi Sant** Gweler yr hysbysfwrdd
- 29 **C.F.F.I.** Cyfarfod

### RHAGFYR

- 2 **Sioe Tal-y-bont.** Cinio ym Mhlas Antaron
- 4 **Bethel 6 Gweinidog Nasareth 5 Bugail (C) Rehoboth 10 Telfryn Pritchard Eglwys Dewi Sant** Gweler yr hysbysfwrdd
- 6 **C.F.F.I.** Canu Carolau
- 8 **Sefydliad y Merched Tal-y-bont.** Parti Nadolig
- 11 **Bethel 10 Parch Terry Edwards Nasareth 10 Bugail Rehoboth 5 Bugail Eglwys Dewi Sant** Gweler yr hysbysfwrdd
- 13 **C.F.F.I.** Canu Carolau

## S. F. BYRNE

Adeiladwr a Saer Maen



Ffôn: 01970 832068  
M: 077626 20309

Gwneir pob math o waith

- 15 **Gwasanaeth Nadolig Ysgol Tal-y-bont** Bethel
- 18 **Bethel 2 Gweinidog Nasareth 10 R.H. Lewis (Bethel) Rehoboth 10 Tudor Davies Eglwys Dewi Sant** Gweler yr hysbysfwrdd  
**Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch.** Noson o Garolau ac eitemau gan gymdeithas Tal-y-bont a'r Cylch
- 19 **Gwasanaeth Nadolig Ysgol Feithrin Tal-y-bont** Neuadd Goffa 6.30
- 21 **Cymdeithas Sioe Tal-y-bont.** Gyrfa Chwist, Neuadd Goffa Tal-y-bont
- 24 **Gwasanaeth yr Ysgol Sul - Bethel 5.30**
- 25 **Bethel 10 Gweinidog Nasareth 10 R.H. Lewis (Bethel) Rehoboth 10 Bugail Eglwys Dewi Sant** Gweler yr hysbysfwrdd

### Cymdeithas Sioe Tal-y-bont Gyrfa Chwist Ddofednod

Nos Fercher 21 Rhagfyr  
Neuadd Goffa  
am 8 o'r gloch

Croeso i Bawb

### Cymdeithas Sioe Tal-y-bont Cinio Blynyddol

Nos Wener 2 Rhagfyr  
Ym Mhlas Antaron,  
Aberystwyth  
Cinio am 8 o'r gloch  
Gŵr Gwadd -  
Mr Charles Arch

Enwau i Janet Jones  
Ffôn: 01970 832293  
erbyn 25 Tachwedd

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont (01970 832438) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn



**BWRDD YR IAITH  
GYMRAEG • WELSH  
LANGUAGE BOARD**

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Ceri, Helen a Dafydd, gyda Ceri'n dylunio. Golygyddion y rhifyn nesaf fydd Rhian, Glanrafon (832344 [rhian.evans@tiscali.co.uk](mailto:rhian.evans@tiscali.co.uk)) a Catrin, Ynysidiol (01654 781345 [catrin.jenkins@llgc.org.uk](mailto:catrin.jenkins@llgc.org.uk)). Dylai'r deunydd fod yn llaw'r golygyddion erbyn dydd Gwener 2 Rhagfyr a bydd y papur ar werth ddydd Gwener 9 Rhagfyr.

## PENBLWYDD HAPUS

Dymuniadau penblwydd dedwydd iawn i'r Parch Owen Williams, Hafodawel, Tal-y-bont. Mi fydd yn 95 mlwydd oed ar 20 Tachwedd ac mi fydd y teulu yn ymuno ag ef i ddathlu'r achlysur yng Nghartref Nyrsio Alltymynydd, Llanybydder.

## PRIODAS ARIAN

Llongyfarchiadau i David a Mair Jenkins, Ynyseidiol, Ffwrnais, fu'n dathlu pum mlynedd ar hugain o fywyd priodasol ar 18 Hydref. Pob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

## DATHLU'R DEUNAW

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Cian Llywelyn, Isycoed, Tal-y-bont, a oedd yn dathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw oed ar 6 Hydref.

## SWYDD NEWYDD

Llongyfarchiadau i Owain Huw, mab Eleri a Gwilym, Pengwern, Tal-y-bont, sydd wedi cael swydd newydd yn ddiweddar fel Swyddog y We yn yr adran Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth, Prifysgol Abertawe. Pob hapusrwydd iddo ef a'i ddyweddi, Eva, pan fyddant yn symud ddiwedd Tachwedd i'w cartref newydd ger y Mwmbwls.

## PRIODAS

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Rhydian, mab Emyr a Mair Jones, Maesnant, Tal-y-bont, a Jeanine Louise Simmons o Cross Inn, Llannon, ar eu priodas yn Aberystwyth ddydd Sadwrn 22 Hydref. Pob hapusrwydd iddynt i'r dyfodol.

## YN YR YSBYTY

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at Mrs Pat Harris, Winllan, Bontgoch, sydd yn Ysbyty Maelor, Wrecsam, ers mis ac wedi cael dwy lawdriniaeth. Gobeithio y bydd hi'n teimlo'n well yn fuan iawn.

## GENEDIGAETH

Llongyfarchiadau i Catherine ac Ian Taylor, Mur Mawr, Tal-y-bont, ar enedigaeth eu mab Llew.

## PROFEDIGAETH

Mrs Vera Lewis wedi colli chwaer-yng-nghyfraith yn Llandre, Mrs Nancy Hughes. Teulu Rowlands, Wesley Terrace a Mrs Megan Brickley, Tanybryn wedi colli perthynas ym Machynlleth, Mr Billo Williams y Cigydd.

# Pobl a Phethe



## PRIODAS

Yn yr Hen Gapel, Llanbryn-mair ar yr 22ain o Hydref 2005, priodwyd Nia Wyn, unig ferch Lilian Williams a'r diweddar W.E. Williams, â John Deulwyn Evans, mab John Ifor a Glenys Evans, Llwynysguborwen, Talybont. Y morwynion priodas oedd Sioned Roberts, Nel Roberts a Megan Roberts. Y gwas priodas oedd Kevin Douch, a'r ystlyswyr oedd Gareth Wyn Humphreys, Ioan Evans a Hywel Williams. Cynhaliwyd y wledd briodas yng ngwesty Fronoleu, Dolgellau, ac maent bellach wedi ymgartrefu yn 4 Penrheidol, Penparcau, Aberystwyth. Dymunwn bob hapusrwydd iddynt.

## PRAWF GYRRU

Llongyfarchiadau i Iolo Davies, Doleifion a lwyddodd yn ei brawf gyrru yn ddiweddar.

Hefyd i Dylan Hughes, 92 Maes-y-deri ar basio ei brawf gyrru.

## DIOLCH YN FAWR

Hoffai Anne, Tony, Chris, Lynn a'r teulu, Tremafon, ddiolch yn ddiffuant i deulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt ar gollu Mam a Nanna mor annwyl i ni. Diolch hefyd am gyfraniadau a dderbyniwyd i Gronfa Nyrsys Cymunedol Meddygfa'r Borth.

## YN YR YSBYTY

Mrs Edna Evans, 69 Maes-y-deri wedi bod yn yr ysbyty a Juliet Trudgill.

## GENEDIGAETH

Llongyfarchiadau i Michael a Nicola Thomas, Dôl Pistyll, ar enedigaeth mab, sef Siôn, brawd i Katy.

## ENNILL CADAIR EISTEDDFOD

Llongyfarchiadau i Carys Briddon, Penrhyn, Tre'r-ddôl ar ennill cadair yn Eisteddfod Felinfach.

## GWELLHAD BUAN

Gwellhad buan i Caron Hughes, 92 Maes-y-deri, Tal-y-bont.

## LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Gwilym Lynn, Glanrafon, Pontygeifr ar ennill ei PhD yng Nghaeredin yn ddiweddar.

## CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn gyda theulu a pherthnasau Eirug Davies, Pantdrain, llawer yng nghylch *Papur Pawb*.

Cydymdeimlwn gyda Mr a Mrs Graham Briddon, Penrhyn, Tre'r-ddôl ar farwolaeth mam Graham.

Cydymdeimlwn gyda Mrs Ann Isaac a Susan a Will Hopkins a'r bechgyn, Dyffryn, a chysylltiadau eraill i gyd ar farwolaeth Daniel.

Cydymdeimlwn gyda theulu Llwynglas ar farwolaeth ewythr i Alun, sef Mr Evan Jones, Machynlleth, gŵr Eluned, gynt o Llwynglas.

Cydymdeimlwn â Cen a Marilyn, y Lodge, Eglwysfach ar farwolaeth brawd yng nghyfraith, Billo Williams.

## DIOLCH

Ar ran y teulu dymuna Mrs Doris Pierce a Mrs Brenda Jeeves ddiolch i bawb a gyfrannodd er cof am John Owen Ellis. Y mae dros £450 yn cael ei rannu rhwng Ward Meurig, Ysbyty Bronglais a Chartref Tregerddan. Diolch i bawb.

## BEIRNIAD

Yng nghyfarfod Cyngor defaid Poll Dorset yn Dorchester yn ddiweddar cafodd Iolo Davies, Doleifion ei ddewis i fod yn feirniad prawf (*Probationary Judge*) ar gyfer beirniadu defaid mewn sioeau. Anrhydedd mawr i un mor ifanc.

## GOHEBYDD IFANC

Pob dymuniad da i Rhun Leeding, Glan-nant, Taliesin, ar ei swydd fel gohebydd gyda'r *Cambrian News* yn ardal Llanbed. Beth am ambell i sgwp i *Papur Pawb* hefyd, Rhun?

## YSGOL SUL BETHEL

Braf yw croesawi Catrin Mai, Tŷ Gwyn, Tal-y-bont, i dîm athrawon yr Ysgol Sul. Rydym ar hyn o bryd yn llunio sgript Nadolig ar gyfer ein gwasanaeth noswyl y Nadolig.

# Pobl a Phethe

## ENNILL GWOBR

Llongyfarchiadau i Janet Cefngweiriog, wedi ennill £100 ar raglen deledu Wedi 3.

## RYGBI

Ar ddechrau'r tymor rygbi eleni cafodd Iolo Davies, Doleifion ei ddewis i fod yn gapten tîm rygbi hŷn Penweddig. Hyd yn hyn, mae'r tîm wedi cael tymor cymysglyd iawn gan ennill a cholli yr un nifer o gemau. Un o'r blaenwyr ydy Iolo, yn wahanol iawn i'w Dad(!) gan chwarae yn yr ail reng, blaen asgellwr neu rhif wyth fel bo'r angen. Mae Iolo hefyd yn aelod o dîm ieuencid Clwb Rygbi Aberystwyth.

## CROESO ADRE

Braf gweld Mr Richard Bennett, Ynys Capel, adref ar ôl bod yn yr ysbty.

## NOFWRAIG O FRI

Daeth Catrin Hughes, Glandyfi, yn bedwerydd mewn ras nofio pellter mewn gala ym Mhlas Crug yn ddiweddar, tipyn o gamp i un mor ifanc. Roedd hi'n aelod o dîm cyfnewid buddigol o Glwb Nofio Aberystwyth. Mae Catrin ymhlith nifer o nofwyr talentog o'r ardal sy'n mynychu'r clwb yn gyson.

## DAMWAIN

Torrodd Lowri Hughes ei braich yn ddiweddar tra'n chwarae pel-rwyd. Gwellhad buan i ti, a gobeithio y bydd dy chwaer Kayleigh yn cario dy fag ysgol at y bws.

## SWYDD NEWYDD

Llongyfarchiadau i Arwel Griffiths, Maes y Deri ar ei swydd newydd yn y Lolfa.



## LLWYDDIANT

Bu cystadlu brwd yn Eisteddfod Powys yn Ysgol y Berwyn, Y Bala ar Hydref 21 ac roedd yna gynrychiolaeth o Dal-y-bont mewn amrywiaeth o gystadleuthau. Cipiodd Sam Ebenezer yr ail wobwr am ganu alaw werin allan o 17 o gystadleuwyr. Hefyd daeth Elen Ebenezer yn gyntaf a Niamh O'Brien yn ail yn y gystadlaeth dawnsio disgo o dan 12 oed.

**Afiaith**  
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol  
Prydlon • Personal

Marta Davis  
Isg-coed, Tre Talleis, MACCHYLLLETH  
Pwys 3120 RIG Cymru  
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 822230 afiaith@aol.com

Siop y Pethe  
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau  
(01970) 617120

## C.FEI. TAL-Y-BONT A'R CYLCH

Cynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch eleni yng Nghapel y Garn, Bow Street, gydag anerchiad gan Beti Griffiths. Bu nifer o'r aelodau'n cymryd rhan, a casglwyd £80 tuag at elusen Macmillan Cancer Relief.

Buom yn ymarfer yn ddiwyd tuag at Eisteddfod y Sir, a gynhaliwyd eleni yng Ngholeg Llanbed, ar nos Iau 27 Hydref a dydd Sadwrn 29 Hydref. Llongyfarchiadau i Elen Thomas a ddaeth yn 3ydd yn yr Unawd dan 16, ac i'r holl aelodau a fu'n cystadlu yn y Meimio i Gerddoriaeth – daethant yn 3ydd.

Ar ôl yr holl waith caled, y nos Fawrth ganlynol cafwyd noson gymdeithasol yn y sinema yn Aberystwyth.

Catrin Jenkins

## EGLWYS ST PEDR, ELERCH

Daeth cynulleidfda dda ynghyd i wrando ar y Parch. Philip Wyn Davies, Tregaron yn pregethu yng nghyfarfod diolchgarwch blynyddol Eglwys St. Pedr, Elerch ar nos Wener 14 Hydref. Fe'i croesawyd yn gynnes iawn gan y Ficer, y Parch. John Livingstone. Penderfynwyd y byddai'n briodol eleni i gyflwyno'r casgliad i apêl daearyn Asia, a llwyddwyd i godi £53 tuag at y gronfa. Diolch hefyd i bawb a fu mor brysur yn addurno'r Eglwys ar gyfer yr achlysur. Diwedddwyd y noson gyda phaned a sgwrs ym Mhantgwyn.

## CYFARFOD Y CHWIORYDD

Cynhaliwyd Cyfarfod y Chwiorydd yn Rehoboth, Taliesin ar 11 Hydref. Cawsom brynhawn hwyliog iawn yng nghwmni Tegwyn Jones o Fachynlleth. Cawsom sgwrs ddifyr ag amrywiol iawn. Gorffennodd Tegwyn drwy ganu yn ei lais tenor swynol.

## MERCHED Y WAWR TAL-Y-BONT A'R CYLCH


Croesawyd Mrs Mary Griffiths gan ein llywydd, Ellen ap Gwynn i'r cyfarfod ar nos Lun, 17 Hydref. Mrs Griffiths yw Cadeirydd y Bwrdd Iechyd lleol sydd ar cyfrifoldeb i dalu am bob gwasanaeth o fewn Ceredigion, a chafwyd trafodaeth frwd gan i nifer o'r aelodau ofyn cwestiynau iddi. Diolchwyd i Mrs Griffiths gan Edna Thomas. Meinir Fleming, Mair Jones ac Eirlys Jones oedd yng ngofal y te.

## BETHESDA TYNANT

Tymor yr Hydref bron ar ben a gwasanaeth olaf y capel bach wedi ei gynnal, sef y Cwrdd Diolchgarwch a gynhaliwyd ar Sul y 9fed o Hydref. Y wraig wadd oedd Miss Beti Griffiths, cyn athrawes ysgol Llanilar. Hyfrydwch unwaith eto oedd cael ei chroesawu a hithau a'i gwreiddiau yn ddwfn yng Nghwm Tynant. Llawenydd mawr iddi hi a ninnau fel cynulleidfda oedd cael plant yn yr oedfa. Rhoddodd rhan o'i hamser yn sgwrsio gyda'r plant, ac rwy'n siwr y byddant yn cofio am y cynghorion a gawsant ganddi. Diolchwn i bawb a fu yn gymorth inni drwy fisoedd yr haf, a chroeso ichi i gyd ymuno â ni ym mis Mai 2006 pan fydd y capel yn ail agor.

**Gwersi Gitâr, Gitâr Fas,  
Drymiau**  
a Mandolin, Bouzouki  
a Banjo 5-tant

Dafydd Saer BMus  
832141

  
**I.O. Thomas a'i Fab**  
Cigydd, Penygarn

Cig Ffres i'r Rhegwll, Seliig Carrref  
Oen Cymru, Cig Eidion Gorau  
Ffôn: (01970) 828447

**Y Fframdy**

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf. Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth,  
Ceredigion SY24 5JA  
Ffôn: 01970 871042  
Symudol: 07773 846659

## Daniel David Isaac (Dan Eic) 1937–2005

Ar ôl i mi ddychwelyd i'r hen gynefin dair mlynedd yn ôl, roeddwn wedi cwrdd â'm hen gyfaill Daniel droeon, ac yntau'n dweud ei fod yn falch ei fod yn ôl "tua'r lle be dechrau'r daith". Ac yna, wedi i mi gymryd rhan yn angladd ei gefnder Alun yn Soar Tre'r ddol ddwy flynedd yn ôl fy ddywedodd Dan, "Mae'n dda dy fod yma, fe fydda i dy angen di cyn bo hir". Roedd wedi son am hynny wrth Ann, ac mi roedd hithau a'r teulu'n awyddus i mi gymryd at wasanaeth angladd Dan.

Roedd e'n dipyn o wyrth fod Dan wedi byw cyhyd gan iddo fod yn ddirifol wael pan gafodd pneumonia yn ddwy flwydd oed ag yntau wedi cael cyfnodau hir o salwch byth wedyn. Gan fy mod innau'n sal ac yn colli ysgol fel yntau, roeddem wedi closio at ein gilydd a byddwn yn mynd i'w gartref ac i siop Tomi, ei dad, yn gyson. Rhyfeddwn at Tomi Isaac ungoes yn gallu gwneud pob dim ac yn gallu symud yn gyflym yn enwedig ar ôl plant drwg!

Roeddem gyda'n gilydd yn nosbarth modryb Dan yn ysgol Llangynfelin, ond er bod Miss Isaac yn chwarae i Tomi, doedd dim ffafrau i'r nai, a byddai Dan yn cwyno ei bod hi'n fwy llawdrwm arno fe na'r gweddill ohonom! Cawsom gychwyn da gyda hi a Dorothy Owen a Huw Evans ac yr oedd Dan a minnau, Gwenda Morris ac Olwen Rowlands wedi llwyddo wedyn i basio'r sgolarship a mynd i ysgol Ardwyn ym Medi 1948.

Wrth golli Dan a chofio am ei dylwyth, mae'n weddus diolch am gyfoeth yr etifeddiaeth Gristnogol Gymraeg a ddaeth i ni drwy'n hynafiaid. Rwy'n cofio tad-cu Dan, Dafydd Isaac, yn wr amlwg fel syrfewr y ffyrdd ac un o arweinwyr Soar. Yn y Goitre y trigai'r hen deulu ac yr oedd Morgan, brawd Dafydd, yno yn arddwr diwyd. Wedi i ni weiddi, 'blwyddyn newydd ddrwg a llond y ty o fwg!' am na chawsom galennig ganddo un calan, daeth ar ein holau a gwn yn ei law!

Nid wyf yn anghofio teulu Maggie, mam Dan o Fryn-fedwen Fach, Cwm Ty Nant, hen deulu nobl y mae'r disgynyddion yn rhai gweithgar yn ein plith o hyd. Yn gymysg a'r chwithdod o golli Daniel, rwy'n diolch am gyfeillgarwch oes ac am fendithion "y manau dymunol". Rydym yn cydymdeimlo ag Anne a'i theulu a'r cefndryd a'r cyfnitherod a gweddill y perthnasau, heb anghofio'r hen gyfeillion sy'n gwmni ar y daith o hyd.

*W J Edwards (Bili Stryd Isa)*

## Cyngor Cymdeithas Ceulanamaesmawr

Y Cadeirydd, Cyng. Rhian Evans yn croesawu'r Cynghorwyr i Gyngor ddiwedd Hydref gyda'i chroeso arferol. Derbyniwyd bod cofnodion o Gyngor diwedd Medi yn rhai cywir, yna arwyddwyd hwy gan y Cadeirydd.

Cafwyd amlinelliad o sefyllfa ddiweddaraf Prosiect Ysbryd y Mwynwyr a bod noson agored i'r cyhoedd wedi'i threfnu i egluro mwy amdano ac ar yr un pryd geisio rhagor o wybodaeth am fannau o ddiddordeb hanesyddol oddi mewn i'r gymuned.

Deallwyd bod cyflwr ffordd Llety Ifan Hen i Syfydrin wedi gwella ac yn bosibl ei thramwyo yn dilyn gwaith cynnal a chadw gan y Cyngor Sir.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth yr Aelod Seneddol, Mr Mark Williams yn mynegi ei fod yn barod iawn i gefnogi'r Mesur Cymunedau Cynaliadwy yn ôl dymuniad y Cyngor yma ac a fydd gerbron y senedd yn fuan. Bydd y Cyng. Glenys Edwards yn cynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfod blynyddol Cyngor Henoed Ceredigion yn ystod y mis.

Y mae Awdurdod Heddlu Dyfed Powys yn gwahodd cymunedau i gyflwyno blaenoriaethau plismona am y flwyddyn nesaf. Pwysleisir yr angen i barhau gyda'r cynlluniau presennol a chael presenoldeb heddwes ar fin nos fydd yn codi ymwybyddiaeth ohonynt trwy'r pentref.

Cytunwyd rhoi cymorth ariannol i Hedydd Mai Phylip i fynd ar daith gyfnewid i Siapan fel un o grŵp o ddisgyblion ysgolion Penglais a Phenweddig am bythefnos. Tra yno byddant yn ymweld â thref Kaya lle sefydlodd y diweddar Frank Evans gymdeithas cymodlawn rhwng ieuencid Aberystwyth a'r dref honno. Y mae ceisiadau cynllunio i newid defnydd modurdai rhif 6 a 15 Dol Pistyll wedi'u caniatáu yn ogystal â chais amlinellol i godi tŷ ger Caergog, Bontgoch. Trafodwyd ceisiadau i godi stablau yn Llwyn Adda ac am estyniad ym Mhenygro, Bontgoch.

Niweidiwyd y ffens o boptu mynedfâr Cae Chwarae yn ddiweddar a bu'n ofynnol, gan gydymffurfio â gofynion diogelwch, i drefnu atgyweirio'r cyfan gynted ag y bo modd.

## Bore Coffi a Chelf!

Roedd Ruth Jên wedi bod yn meddwl am sbel beth allai hi wneud gyda'r holl waith sydd ganddi yn y stiwdio. Llauer ohono yn brintiadau yn mynd yn ôl blynyddoedd ac erbyn hyn yn mynd â lle gwaith mwy diweddar.

Gyda'r newyddion am y ddaeargryn yn Asia penderfynodd y gellid rhoi'r gwaith ar werth er mwyn codi arian at achos da. Cyplysu hynny a bore coffi a dyna gynllun!

Ychydig o bosteri, llond llaw o daflenni, holi un neu ddau am eu cymorth a roedd y peth wedi'i drefnu.

Ond bu cryn dipyn o grafu pen y noson cynt, a fyddai unrhyw un yn dod? Fyddai digon o gacenni i bawb? Hynny yw, os oedd unrhyw un yn dod?! ....

Ond doedd dim angen poeni. Erbyn hanner wedi naw bore Sadwrn roedd yna bobl yn dod a llond basgedi o gynnyrch cartre, cacennau di-ri, gwaith llaw, llyfrau ac eu gwaith celf eu hunain. Erbyn deg roedd pobol yn cyrraedd gyda phocedi dwfn. Daeth llawer o bobol o'r pentre, y cyffiniau, pentrefi cyfagos fel Bontgoch a Thaliesin a daeth nifer hefyd o Aberystwyth. Prynwyd pob cacen, aeth y cynnyrch cartre i gyd, yfwyd galwynni o goffi, a gwnaethpwyd twll mawr yng nghasgliad printiadau Ruth.

Codwyd £1583.27 oherwydd haelioni pawb a roddodd o'u hamser, eu harian a'u gwaith - yn gacennau, yn gynnyrch, ac yn gelf.

Diolch yn fawr iawn i bawb.



**ANGEN**  
Anifeiliaid Tew  
(i'w lladd mewn  
lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis  
Capel Bangor 880627

**Llaethdy**  
Tal-y-bont a'r Cylch

Yn dosbarthu i:  
Tal-y-bont, Pentrebach, Taliesin,  
Llangynfelyn, Tre'rddol, Ffwrnais,  
Eglwysfach a Glandyfi

Cysylltwch â  
**Dylan neu Catherine**  
Ffôn: 01970 832516

**James Memorials**

Am  
**GOFEBAU ARBENNIG  
BEDDARGRAFFIADAU  
ADNEWYDDU O SAFON  
ARWYDDION AR DAI A  
BUSNESAU**

Gofynnwch am bannffed  
rhad ac am ddiem

James Memorials  
Vicarage Crossing,  
Llandre, Bow Street  
Ffôn: (01970) 820 111

Argraffu 5-lliw  
a gwasanaeth di-all:  
holwch Paul am bris  
ar [paul@yloffa.com](mailto:paul@yloffa.com)

**yloffa**  
TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE  
01970 832 304  
[yloffa@yloffa.com](mailto:yloffa@yloffa.com)  
[www.yloffa.com](http://www.yloffa.com)

# Ysgol Gymunedol Tal-y-bont



## GWASANAETH DIOLCHGARWCH

Diolch yn fawr iawn i bawb a fu yng Ngwasanaeth Diolchgarwch blynyddol yr ysgol. Roedd hi'n braf i weld cymaint yn cefnogi unwaith eto. Hoffai'r ysgol ddiolch yn fawr iawn i'r Ficer Mr Brian Thomas a'r swyddogion am gytuno i ni gael defnyddio'r eglwys a hoffwn ddiolch yn arbennig i Mr Roberts am fod ar gael drwy'r adeg i agor yr eglwys ar gyfer yr ymarferion. Cafwyd anerchiad pwrpasol gan Mrs Evans cyn Bennaeth Ysgol Llangynfelyn hefyd ac roedd hi'n braf iawn gael y cyfle i'w chrosawu'n ôl i'r ardal. Casglwyd dros £130 i elusen Ambiwlans Awyr Cymru yn ystod y gwasanaeth.

## CWRS CELF

Trefnwyd i Flwyddyn 6 fynd ar gwrs argraffu gyda'r artist enwog Catrin Webster yng Nghanolfan y Celfyddydau ar ddechrau Tachwedd. Cafodd pawb dipyn o hwyl wrth greu gwaith safonol iawn ac roedd hi'n dipyn o brofiad i gael tiwtor mor brofiadol.

## RYGBI

Bu'r tîm rygbi yn hyfforddi gyda Chlwb Rygbi Aberystwyth yn ystod y mis ac ar ddiwedd yr ymarfer chwareaedd y bechgyn yn wych mewn gêm gyfeillgar.

## ARAD GOCH

Daeth Cwmni Theatr Arad Goch i'r ysgol yn ddiweddar i berfformio drama i blant lleiaf yr ysgol. Roedd y ddrama'n canolbwyntio ar roi a derbyn anrhegion ac fe gafodd y plant eu canmol am fod mor barod i drafod yn y gweithdy a ddilynodd y perfformiad.

## CYNGOR YR YSGOL

Etholwyd Rachael Peterson a Medi Evans i gynrychioli Blwyddyn 3 ar Gyngor yr Ysgol. Llongyfarchiadau mawr i chi a phob hwyl i chi ar eich gwaith.

## AELODAU NEWYDD AR Y STAFF

Croeso mawr i Lowri Fleming a Lynn Phillips yn aelodau newydd o staff yr ysgol a benodwyd dros yr wythnosau diwethaf. Pob hwyl ichi yn yr ysgol.

**CARTREFICYNNES**

**WÂRME**  
SYSTEM WRSEOGI GADWRAETHOL  
DIYDANNOL LHZ

Argyfer gwasgogi effeithiol, economaidd  
ac arwyddeddol ffrictol

Eich ymgryghorydd lleol:  
Gwelfor  
3 Pŵer Eirion  
Ffrwais  
Machynlleth  
Powys  
SY20 8PH

Ffôn 01654 781348  
Svndod: 07840 530495  
e-mail iactar@all@btinternet.com



Ar ddydd Mercher, 18 Hydref aeth disgyblion B3 a 4 ar ymweliad â Chastell Aberystwyth ac Amgueddfa Ceredigion. Mynd ar drywydd sgerbwdd oeddent ac fe fuont yn ymchwilio i hanes sgerbwdd a ddarganfuwyd yn y Castell rai blynyddoedd yn ôl ond sydd erbyn hyn yn gorwedd yn Amgueddfa Ceredigion.



Dyma lun o rai o blant hynaf yr ysgol yn mwynhau yn nathliadau pen-blyydd T Llew Jones yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog.

**CODI Tŷ NEU  
ESTYNIAD?**

Iwan Jones, Technegydd Pensaernïol  
Gallimorwyl, Tal-y-bont, Ceredigion SY24 5HJ  
01978 832760

AM EICH HOLL  
ANGHENION BRODWAITH,  
CROESBWYTH A  
THAPESTRIAU

GALWCH YN  
**PWYTHAU'R  
SGUBOR**

GER SIOP GOFFI A  
CHREFFTAU PENNAU,  
RHYDYPENNAU, BOW  
STREET, ABERYSTWYTH  
FFÔN: 01970-820122

**A DAVIES  
TRYDANOL**

Tŷ Morben Isaf  
Derwenlas  
MACHYNLLETH  
Powys SY20 8SR  
ALAN DAVIES Ffôn 01654 781213

Os am daci neu fws mini

**CAMBRIAN  
CABS**

Teithiau Pell ac Agos  
01970 626292



Simon Hughes

## Ysbryd y Mwynwyr

Daeth tyrfa dda ynghyd i'r ysgol nos Fercher Tachwedd 2 i weld arddangosfa ac i ddysgu mwy am gynllun cyffrous Ysbryd y Mwynwyr. Meleri Richards o Gyngor Sir Ceredigion a esboniodd mai cronfa o arian Amcan 1 ynghyd ag arian o'r Cyngor Cefn Gwlad yw hwn, a'i fod ar gael i hybu twristiaeth a datblygu economaidd ar sail treftadaeth cyfoethog yr hen fwynfeydd a fu mor bwysig yng ngogledd Ceredigion. Trwy sgwrs a sleidiau hynod ddifys gan Simon Hughes, Felin Leri, peirianydd mwynfeydd profiadol, sydd yn gwybod mwy na neb am hanes mwynfeydd yr ardal, cawsom agoriad llygaid i gyfoeth yr hanes.

Bu'r gweithiau cyntaf ar Allt y Crib yn yr Oes Efydd, ac yna bu'r Rhufeiniaid, y mae eu holion i'w canfod yn y gaer wrth droed Erglodd ac yn Sarn Helen sy'n rhedeg trwy Cwm Slaid, yn weithgar yn 'Aur'glodd a Nantllain. Mae'r gwaith archaeolegol ar dir Ynys Capel, hefyd yn dechrau dangos bod yr ardal hon yn bwysig iawn fel ardal trin mwyn. Yn ddiweddarach, bu mwynwyr yma yn oes Elizabeth 1 ac wedyn yn ystod y 19 ganrif pan oedd gwaith trin mwyn ar y tir lle saif y Wern heddiw ac hefyd ar dir Melin Leri. Daeth aur, arian, copor, plwm a sinc allan o'r creigiau o'n hamgylch dros y canrifoedd.

Esboniodd Paul Sambrook, sy'n archaeolegydd proffesiynol, pa mor werthfawr yw olrhain hanes y cymunedau yr oedd eu bywoliaeth yn dibynnu ar y gweithiau mwyn. Yn ystod y sgyrsiau a gafwyd mewn grwpiau llai ar ddiwedd y cyfarfod, daeth sawl atgof i glawr. Atgofion a gaiff eu defnyddio ar fyrdau dehongli a fydd yn cael eu paratoi fel rhan o'r cynllun hwn.

Dan arweiniad y Cynghorydd Ellen ap Gwynn ac Eco-dyfi, bydd y tri Cyngor Cymuned: Ceulanamaesmawr, Llangynfelyn ac Ysgubor y Coed yn cynnig am arian o'r gronfa i baratoi byrddau dehongli a thaflen yn olrhain yr hanes gan dynnu sylw at y llwybrau cyhoeddus yn yr ardal sydd yno oherwydd y gweithiau mwyn. Gobeithir denu twristiaid i ddod ac aros yn yr ardal i grwydro hen lwybrau'r mwynwyr lle bydd paneli llai fan hyn a fan draw i esbonio mwy am yr hanes. Mae hwn yn gynllun pwysig, nid yn unig i ddenu twristiaeth, ond i ninnau hefyd sylweddoli ein bod yn byw mewn ardal ol-ddiwydiannol, ardal sydd a hanes cyn bwysiced os nad yn bwysicach na hanes maes glo a haearn cymoedd y de.

Cynhelir cyfarfod tebyg yn Llanfach rhwng 6-9 nos Fawrth Tachwedd 22 i bobl cymuned Llangynfelyn glywed eu hanes hwythau a threfnir cyfarfod arall yn ardal Ysgubor y Coed cyn hir.

## Harry a Dudley

Ymddangosodd Harry, perchennog Gwesty Harry's yn Aberystwyth, ar raglen goginio Dudley ar S4C yn ddiweddar. Rhannodd Harry, mab Gwen a Gareth Hughes, Coetmor rysait arbennig ar gyfer paratoi celeriach mewn ffordd diddorol a gwreiddiol. Roedd yn ymddangos yn hollol gartrefol o flaen y camerau a braf byddai ei weld yn cyflwyno ei raglen goginio eu hun ar S4C.

## Cyrri a Cherddi

Wedi ail a thrydydd drefnu noson agoriadol Clwb Nos Wener, agorwyd y tymor gyda noson o 'Gyrri a Cherddi' yn y Llew Gwyn ar Nos Wener, Hydref 14eg.

Wedi'r cwrs cyntaf – cyrri – aethpwyd ymlaen i'r prif gwrs a drefnwyd gan y Prifardd Gwenallt Llwyd Ifan. Yn cadw cwmni iddo oedd Gwyn Jenkins a Robot Gruffudd.

Darlennodd y tri nifer o'u cerddi, yn englynion, cywydd a cherddi rhydd – o'r difrifol i'r digri. Er nad oedd Anwen Pierce, aelod o ddozbarth cynganeddu'r pentre yn gallu bod yn bresennol, darllenwyd ei gwaith hithau.

A rhag ofn bod egin fardd yn gynulleidfa rhoddwyd tasg i'r gwrandawyr – gorffen limerig!

Noson gartrefol a hwyliog o frethyn cartref ond yn cyrraedd safon uchel o ran ei chynnwys – a mawr oedd y mwynhad.

Byddwn yn cwrdd eto ar Dachwedd 25ain yn y Llew Gwyn gyda Caryl Glyn a'r Band yn perfformio.

### LLEUAD YW Y BYD

capel heb ddim crefydd  
coleg heb ddim dysg  
tafarn heb gwmniaeth  
afon heb ddim pysg

merched sydd fel dynion  
heddych llawn o drais  
rhyfel heb elynion  
Cymro, sydd yn Sais

adloniant heb ddifyrwrch  
tawelwch ond dim hedd  
celfyddyd heb brydferthwch  
bywyd, llawn o'r bedd

digonedd, ond dim llawnder  
pwerau, ond dim grym  
arweinwyr sydd yn dilyn  
popeth, llawn o ddim

does dim byd fel ei enw  
ei arall cewch o hyd  
Lloegr ydi Cymru  
lleuad yw y byd

Robot Gruffudd

### AR DDIWRNOD ANGLADD GWYNFOR EVANS

Heddiw a wnei di faddau – i  
nyni'n

Hunanol ein moesau  
A phridwerth dy aberthau  
Fydd gosod croes ar ddydd Iau

Gwyn Jenkins

### GWAHODDIAD

Ar y lôn union honno  
am yr haul dewch draw i 'mro.  
Dewch dros y ffin o'r ddinas  
o'r wal lwyd i'r awyr las,  
am yr hwyl ym merw'r ha'  
anelwch oll am Walia.

Os aros yw eich bwriad  
fe gewch dŷ i'w rentu'n rhad,  
mae bythynnod hynod hon  
yn galw am drigolion.  
O dewch wir, O dewch da chi,  
yn uniaith, yn ddsenni.

Gwenallt Llwyd Ifan.

## Neuadd Goffa Tal-y-bont

Ni chafwyd cymaint o chwerthin iach yn y Neuadd ers tro byd.Y rheswm?

Yr oedd Cwmni Drama Llandudoch yn perfformio ffars - cyfieithiad o'r Saesneg. 'See How They Run'.

Mae'r cwmni yn bod er mwyn darparu adloniant i gynulleidfa oedd a chael hwyl wrth wneud hynny. Mae nhw wedi perfformio mewn llu o theatrau ym Mhenfro, Caerfyrddin a Cheredigion ond heb ddod mor bell a Thalybont o'r blaen. Mae gynno ni le i ddiolch iddynt am ddod atom ni a rhoi noson mor hwyliog inni. Gobeithio y cawn ni eu gweld nhw eto.

Braf oedd gweld y Neuadd Goffa yn llawn i fwynhau y wledd a gawsom gan ddisgyblion Ysgol Gyfun Penglais o dan arweinyddiaeth Mrs Jane Leggett. Eleni, roedd y grŵp o chwe deg o blant gyda'u tiwtoriaid yn gadael y diwrnod canlynol ac yn teithio i'r Almaen, gan roi perfformiad cyntaf yng Nghadeirlan Cologne, rhoi nifer ar hyd eu taith, gyda'r olaf yn Kronberg (tref gyswllt Aberystwyth).

Cawsom gyflwyniadau gwych gyda'r gwahanol offerynnau yn cyrraedd uchafbwynt y noson gyda'r côr, yr unawdydd ac wrth gwrs y band!

Diolch i bawb a gymerodd ran ac am y gefnogaeth.

# PÊLDROED



Tîm Pêl-Droed Tal-y-bont: yr ieunctid ac ambell i hen ben

## Dyrchafiad i Dal-y-Bont?

Mae gan glwb pêl-droed Tal-y-bont gyfle i adennill ei le yn Adran Gyntaf Cynghrair Pêl-droed Aberystwyth ar Cylch ar ôl disgyn i'r Ail Adran ddiwedd tymor 2004-5.

Mae'r tîm yn gorwedd yn bedwerydd yn yr Ail Adran gyda 13 pwynt o'i chwe gêm gyntaf. Er bod Tregaron yn edrych fel y tîm cryfa o dipyn yn yr Adran, fe allai Tal-y-bont lwyddo i gael dyrchafiad o'r offren yn ail. Beth bynnag, mae tipyn o ffordd i fynd eto a phwyntiau i'w hennill a'u colli.

Bydd modd cryfhau'r tîm yn fuan pan fydd bachgen ifanc talentog o'r pentre, Sam Penfold, yn cael ei benblwydd yn 16eg oed gan ganiatau iddo chwarae yn y Cynghrair am y tro cyntaf, a phan bydd Dylan Lewis yn holliaich ar ôl ddioddef o anaf cas.

Mae ymrwymiad y clwb bellach ar ddatblygu yr ieuenctid o dan ofal y rheolwr profiadol Anthony Southgate. Ymhlith y chwaraewyr ifanc hyn mae mab Anthony, Robbie, a sgoriodd *hat-trick* yn y fuddugoliaeth ardderchog o 5-0 yn erbyn Corris yn ystod y mis. Sgoriwyd y goliau eraill gan Gareth Hughes a Mark Kent.

Ni chafwyd cymaint o lwc yng nghystadleuaeth Cwpan Emrys Morgan. Mewn gêm gystadluol iawn yn erbyn un o glybiau cryfau Canolbarth, Llanfair ym Muallt, fe fuodd Tal-y-bont o drwch blewyn o ennill. Tarwyd postyn y bechgyn o Faesyfed ddwyiaith ac er i Gareth Hughes rwydo i Dal-y-bont, y sgôr terfynol oedd 2-1 i Lanfair ym Muallt.




## CYMDEITHAS DEFAID MYNYDD

Bore Mercher, 2 Tachwedd oedd dyddiad cychwyn arbrawf wŷn hyrddod y Gymdeithas. Daeth 11 o aelodau a 22 o wŷn hyrddod i'r Prawf a bydd rhain yn cyd-bori ar borfa yn unig ar fferm yn ymyl Aberdaron tan ganol Ebrill.

Mae Tarian Rhosgoch yn cael ei rhoi i'r oen hwrdd gorau ar aelodau sydd yn cymryd rhan yn fotio 3 phwynt i'r gorau, dau i'r ail ac un i'r trydydd. Y canlyniad oedd i hwrdd Enoc Jenkins, Tynygraig ennill y Darian efo 18 pleidlais ac un Dafydd Jenkins, Tanyrallt yn ail efo 9. Llonyfarchiadau i'r ddau frawd.

Bydd yr wŷn yn cael eu pwyso yn rheolaidd yn ystod y prawf a bydd adroddiad i'w weld yn *Papur Pawb* ym mis Mai 2006.

Gareth Evans



## Clwb newydd

Chwilio am rywbeth i lenwi nosweithiau oer a diflas y gaeaf? Wel, mae yna glwb newydd sbon ar fin ei sefydlu yng ngwaelod y Neuadd Goffa dan oruchwyliaeth George Barron. Mae George wedi cytuno i arwain cyfres o nosweithiau o hyfforddiant ar gawio neu glymu plu i bysgotwyr o bob gallu. Am wybod mwy? Dewch i'r cyfarfod cyntaf yng ngwaelod y Neuadd Goffa am 7.30p.m. ar nos Iau, Tachwedd 17.

**Gwasanaeth Scanio  
ARTHUR MORGAN**



Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion  
01239 615085 - 07721 786292

Mae Papur Pawb yn awyddus i gynnwys newyddion am hynt a helynt unigolion neu dimau o'r ardal sy'n cystadlu yn y byd chwaraeon. Anfonwch yr hanesion at Gwyn Jenkins drwy ebost ([maesgwyn@fsmail.net](mailto:maesgwyn@fsmail.net)) neu ffoniwch ef ar 832560.

# TEIARS HUW LEWIS TYRES

Rhodfa'r Parc, Aberystwyth  
Ffôn: 01970 636774

**Am bris cystadleuol ar bob math o deiars, ecsôsts, ac ati, cysylltwch â gwasanaeth lleol...**

- Dewis eang o deiars
- Balansio Electronig
- Ecsôsts
- Tracio
- Brêcs
- Ar agor 6 diwrnod yr wythnos

